



Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board



Siarter Tanau Gwyllt Cymru





CLILC
WLGA



Cadw

Cymru/Wales

CrimeStoppers.

0800 555111



Bannau
Brycheiniog



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Pori
Natur a
Threftadaeth





Cynnwys

Siarter Bwrdd Tanau Gwylt Cymru	5
Ymrwymiad 1: Partneriaeth	6
Ymrwymiad 2: Gwydnwch Amgylcheddol a Chymunedol	12
Ymrwymiad 3: Atal ac Amddiffyn	18

Ymrwymiad 1



Partneriaeth

Ymrwymiad 2



Gwydnwch
Amgylcheddol a
Chymunedol

Ymrwymiad 3




Atal a Diogelu

Siarter Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru



Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board



Ymrwymiad 1



Partneriaeth





Drwy weithio mewn partneriaeth sy'n datblygu, byddwn yn dod â Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Brys, Sefydliadau Cyhoeddus a Phreifat, Tirfeddianwyr a Defnyddwyr Tir at ei gilydd i reoli a datblygu ein tirwedd.

Trwy arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfathrebu byddwn yn:



Deall a chydabod effeithiau ein gilydd i ddatblygu amrywiaeth o ymyriadau cynnar.

Defnyddio dull un llais ar gyfer negeseuon, ymwybyddiaeth ac addysgu am danau gwylt ledled Cymru.

Cael gwell dealltwriaeth o reoli risg tanau gwylt ledled Cymru.

Newid y meddylfryd a chreu Cymru sy'n ddoeth o ran tanau gwylt.



Deall a chydabod effeithiau ein gilydd i ddatblygu amrywiaeth o ymyriadau cynnar

Er mwyn deall a chydabod effeithiau ei gilydd a datblygu amrywiaeth o ymyriadau cynnar ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru, mae'n bwysig i bartneriaid gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

Asesiad risg: Byddwn yn cynnal asesiad risg cynhwysfawr o'r broblem tanau gwyllt yng Nghymru, gan gynnwys y ffactorau sy'n cyfrannu at danau gwyllt, yr effeithiau posibl, a'r ymyriadau presennol. Bydd hyn yn helpu pawb o'n partneriaid i ddeall risg ac effeithiau tanau gwyllt yn y rhanbarth.

Nodi a chysylltu â rhanddeiliaid: Byddwn yn nodi'r holl rhanddeiliaid perthnasol a newydd, gan gynnwys grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, asiantaethau a sefydliadau'r sector preifat. Byddwn yn cysylltu â'r rhanddeiliaid hyn i ddeall eu hanghenion, eu pryderon a'u safbwyntiau ar atal ac ymyrryd mewn perthynas â thanau gwyllt.

Cyd-ddealltwriaeth: Datblygu dealltwriaeth gyffredin o rôl a chyfrifoldebau pob partner wrth atal ac ymyrryd mewn perthynas â thanau gwyllt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o effeithiau ei gilydd ac yn gallu gweithio gyda'i gilydd i lunio a pharatoi ymyriadau cynnar.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth: Meithrin cydweithredu a rhannu gwybodaeth ymhlith partneriaid trwy greu cyfleoedd iddyn nhw weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Gallai hyn gynnwys prosiectau ar y cyd, gweithdai hyfforddi, a chyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd a rhannu arferion gorau.

Strategaethau ymyrraeth gynnar: Yn seiliedig ar yr asesiad risg a'r ddealltwriaeth gyffredin o rôl a chyfrifoldebau, datblygu amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth gynnar sy'n mynd i'r afael ag anghenion a phryderon penodol pob partner. Gallai'r rhain gynnwys ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth gymunedol, rheoli llystyfiant, systemau canfod ac adrodd yn gynnar, a chynlluniau ymateb sydd wedi'u cysylltu gyda'i gilydd.

Monitro a gwerthuso cynnydd: Monitro a gwerthuso cynnydd y strategaethau ymyrraeth gynnar yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol a bod yr holl bartneriaid yn cyfrannu at yr ymdrech.

Trwy gymryd y camau hyn, gall pob partner ddeall a chydabod cyfraniad ein gilydd a chydweithio i baratoi ymyriadau cynnar effeithiol ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru.



Defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n siarad gydag un llais ar gyfer negeseuon, ymwybyddiaeth ac addysg am danau gwyllt ledled Cymru

Er mwyn defnyddio dull un llais o anfon negeseuon, ymwybyddiaeth ac addysg am danau gwyllt ledled Cymru, mae'n hanfodol i ddod â phawb o'r randdeiliaid perthnasol at ei gilydd a chydweithio. Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

Adolygiad o'r gweithgor: Byddwn yn adolygu cyfansoddiad ein gweithgor o randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys y gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill. Bydd y grŵp yn parhau i baratoi ymateb sy'n sicrhau fod y negeseuon yn gyson a chydlynol tuag at negeseuon, o ran creu ymwybyddiaeth ac addysg am danau gwyllt ledled Cymru.

Cyd-ddealltwriaeth: Byddwn yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r broblem tanau gwyllt yng Nghymru, gan gynnwys y ffactorau sy'n cyfrannu at danau gwyllt, yr effeithiau posibl, a'r ymyriadau presennol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall ei gilydd a'u bod yn gallu gweithio gyda'i gilydd i baratoi negeseuon cyson yn ogystal ag adnoddau addysgol.

Strategaeth gynhwysfawr: Byddwn yn datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer negeseuon, ymwybyddiaeth ac addysg am danau gwyllt sy'n amlinellu gweithredoedd, rôl a chyfrifoldebau penodol pob rhanddeiliad. Dylai'r strategaeth hefyd gynnwys cynllun clir ar gyfer rannu adnoddau a mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth: Byddwn yn meithrin cydweithredu a rhannu gwybodaeth ymhlith rhanddeiliaid trwy greu cyfleoedd iddyn nhw weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Gallai hyn gynnwys prosiectau ar y cyd, gweithdai hyfforddi, a chyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd a rhannu'r arferion gorau.

Negeseuon cyson a deunyddiau addysg: Trwy ymgyrch Ymgyrch Dawns Glaw, byddwn yn datblygu negeseuon cyson a deunyddiau addysgol sydd wedi'u teilwra i wahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys y cyhoedd, tirfeddianwyr ac ymwelwyr i Gymru. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu datblygu gyda mewnbwn gan yr holl randdeiliaid gan ddangos cysondeb ar draws pob sianel, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac arwyddion.

Monitro a gwerthuso cynnydd: Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd y strategaeth o ran negeseuon, creu ymwybyddiaeth a darpariaeth addysgol am danau gwyllt yn rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn effeithiol a bod pawb o'n rhanddeiliaid yn cyfrannu at y gwaith.

Trwy gymryd y camau hyn, gyda'n gilydd gallwn gyflwyno dull siarad gydag un llais ar gyfer anfon negeseuon, creu ymwybyddiaeth a darpariaeth addysgol am danau gwyllt ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i atal a lliniaru effaith tanau gwyllt o fewn y rhanbarth.



Cael gwell dealltwriaeth o reoli risg tanau gwyllt ledled Cymru

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o reoli risg tanau gwyllt ledled Cymru, gall partneriaid gymryd y camau canlynol:

Asesiad risg: Byddwn yn cynnal asesiad risg cynhwysfawr o'r broblem tanau gwyllt yng Nghymru, gan gynnwys y ffactorau sy'n cyfrannu at danau gwyllt, yr effeithiau posibl, a'r ymyriadau presennol. Bydd hyn yn helpu partneriaid i ddeall risg ac effeithiau tanau gwyllt o fewn y rhanbarth.

Cyd-ddealltwriaeth: Byddwn yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau pob partner wrth atal ac ymyrryd o ran rheoli risg tanau gwyllt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o gyfraniadau ei gilydd i'r ymdrech ac yn gallu gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu strategaethau rheoli risg effeithiol.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth: Byddwn yn meithrin cydweithredu a rhannu gwybodaeth ymhlith partneriaid trwy greu cyfleoedd iddyn nhw weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Gallai hyn gynnwys prosiectau ar y cyd, gweithdai hyfforddi, a chyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd a rhannu arferion gorau.

Strategaeth rheoli risg Tanau Gwyllt: Byddwn yn datblygu hyn yn seiliedig ar yr asesiad risg a'r ddealltwriaeth gyffredin o rôl a chyfrifoldebau, datblygu strategaeth rheoli risg tanau gwyllt cynhwysfawr sy'n amlinellu gweithredoedd, rôl a chyfrifoldebau penodol pob partner. Dylai'r strategaeth hefyd gynnwys cynllun clir ar gyfer rannu adnoddau a mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd.

Strategaethau ymyrraeth gynnar: Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth gynnar sy'n mynd i'r afael ag anghenion a phryderon penodol pob partner. Gallai'r rhain gynnwys ymgyrchoedd addysgol ac ymwybyddiaeth gymunedol, rheoli llystyfiant, systemau canfod ac adrodd cynnar, a chynlluniau ymateb sydd wedi'u cysylltu gyda'i gilydd.

Monitro a gwerthuso cynnydd: Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd y strategaeth rheoli risg tanau gwyllt yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn effeithiol a bod yr holl randdeiliaid yn cyfrannu at yr ymdrech.

Trwy gymryd y camau hyn, gall partneriaid ennill gwell dealltwriaeth o strategaethau rheoli risg tanau gwyllt ledled Cymru a chydweithio i atal a lliniaru effaith tanau gwyllt yn y rhanbarth.



Newid y meddylfryd a chreu Cymru sy'n ddoeth o ran tanau gwyllt

I gyflawni hyn, mae'n bwysig cysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth i feithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer rheoli risg tanau gwyllt.

Bydd hyn yn cynnwys:

Ymgych Dawns Glaw: Bydd cynnal a datblygu'r ymgych hon yn parhau i addysgu cymunedau a rhanddeiliaid am risg ac effeithiau tanau gwyllt yng Nghymru. Byddwn hefyd yn sicrhau ei fod wedi'i deilwra i wahanol gynulleidfaoedd a'i gyflwyno trwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chyfarfodydd cyhoeddus.

Cysylltu â'r gymuned: Cysylltu â chymunedau ledled Cymru i adeiladu ymwybyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer methodoleg rheoli risg mewn perthynas â thanau gwyllt. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau cymunedol, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, a chreu partneriaeth â sefydliadau lleol i ddatblygu mentrau addysg ac allgymorth wedi'u targedu.

Arfer gorau: Mae hyrwyddo'r arferion gorau yn hanfodol ar gyfer atal a lliniaru tanau gwyllt, gan gynnwys rheoli llystyfiant, canfod ac adrodd yn gynnar, a chynlluniau ymateb sydd wedi'u cysylltu gyda'i gilydd. Gwneir hyn drwy fentrau addysg ac allgymorth sy'n cysylltu â thirfeddianwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Cydweithio: Bydd mwy o gydweithio ymhlith rhanddeiliaid yn parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o risg tanau gwyllt a datblygu strategaethau rheoli risg effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau ar y cyd, gweithdai hyfforddi, a chyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd a rhannu arferion gorau.

Grymuso Cymunedau: Grymuso cymunedau i weithredu ar reoli risg tanau gwyllt trwy roi'r wybodaeth, yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i leihau'r risg yn eu cymdogaeth eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys darparu canllawiau ar reoli llystyfiant, canfod ac adrodd yn gynnar, ac ymateb cymunedol/cynlluniau perchnogaeth.

Monitro a gwerthuso cynnydd: Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd mentrau ymwybyddiaeth o danau gwyllt a rheoli risg yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael yr effaith a ddymunir ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol wrth leihau risgiau tanau gwyllt.

Drwy gymryd y camau hyn, mae'n bosibl newid y meddylfryd a chreu Cymru sy'n ddoeth o ran tanau gwyllt. Meddylfryd sy'n fwy parod i atal a lliniaru effaith tanau gwyllt yn y rhanbarth.

Ymrwymiad 2




Gwydnwch
Amgylcheddol a
Chymunedol





Byddwn yn cyfrannu at reoli ein tirwedd er mwyn diogelu bywyd gwylt, coedwigaeth a bywoliaethau, gwella llesiant, iechyd ac amwynder, hwyluso cynhyrchu bwyd cynaliadwy, a chreu ymdeimlad o le a pherchnogaeth gymunedol.





Rheoli nifer, graddfa a difrifoldeb (ac effaith) achosion tanau gwyllt

Mae rheoli nifer, graddfa, difrifoldeb ac effaith achosion tanau gwyllt yn gofyn am ddull cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar atal, eu canfod yn gynnar, ac ymateb yn gyflym.

Y strategaethau allweddol ar gyfer rheoli achosion tanau gwyllt yw:

Rheoli llystyfiant: Byddwn yn cyfrannu at leihau llystyfiant sy'n gallu achosi tanau ar gyfer tanau gwyllt drwy reoli ar y cyd drwy weithgareddau fel llosgi sydd wedi'i drefnu a'i gymeradwyo, dulliau mecanyddol, a chymorth ar gyfer pori cynaliadwy.

Canfod ac adrodd yn gynnar: Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu ein system ar gyfer canfod ac adrodd yn gynnar ar danau gwyllt, er mwyn caniatáu ar gyfer mesurau ymateb a chyfyngu cyflym.

Ymateb cydlynol: Byddwn yn gwella ein system ymateb gydlynol gan ddod â gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill yn nes at ei gilydd i ymateb yn gyflym i danau gwyllt a'u cyfyngu.

Addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus: Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus i addysgu cymunedau am risgiau ac effeithiau tanau gwyllt, sut i'w hatal, a sut i ymateb pe bai tân gwyllt yn digwydd.

Asesu a chynllunio risg: Bydd ein hasesiadau risg o'r broblem tanau gwyllt yn y rhanbarth ar lefel leol a byddwn yn datblygu cynllun rheoli risg tanau gwyllt cynhwysfawr sy'n amlinellu camau gweithredu, rôl a chyfrifoldebau penodol pob rhanddeiliad.

Parodrwydd a hyfforddiant: Byddwn yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hyfforddi a'u paratoi i ymateb i danau gwyllt. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu cynlluniau ymateb, cynnal ymarferion hyfforddi rheolaidd, a bod â'r offer a'r adnoddau angenrheidiol yn barod ar gyfer gwrthsefyll tanau gwyllt.

Monitro a gwerthuso: Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau a mentrau rheoli tanau gwyllt yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella a mireinio'r dulliau rheoli dros amser.

Trwy weithredu'r strategaethau hyn, mae'n bosibl rheoli nifer, graddfa, difrifoldeb ac effaith achosion tanau gwyllt mewn ffordd sy'n lleihau'r risg i gymunedau a'r amgylchedd.



Addasu i ddatblygiadau natur a hinsawdd ac adfer cysylltiadau â mannau gwyrdd a chymunedau

Er mwyn addasu i newidiadau o ran natur a hinsawdd ac adfer cysylltiadau â mannau gwyrdd a chymunedau wrth leihau llosgi llystyfiant sydd heb ei reoli, mae'n bwysig mabwysiadu dulliau gweithio sy'n canolbwyntio ar gysylltu â'r gymuned, rheoli tir, a mabwysiadu arferion sy'n ystyriol o'r hinsawdd.

Rhai strategaethau allweddol yw:

Cysylltu â'r gymuned: Byddwn yn cynyddu'r cysylltiad â chymunedau lleol i greu ymwybyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer sicrhau cadwraeth natur a rheoli risg tanau gwyllt. Gallai hyn gynnwys cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, creu partneriaeth â sefydliadau lleol a sefydlu mentrau addysg ac allgymorth wedi'u targedu.

Rheoli'r Tir: Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynllun cymorth rheoli tir sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth, yn lleihau'r risg o danau gwyllt, ac yn adfer cysylltiadau â mannau gwyrdd a chymunedau. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau fel rheoli llystyfiant, ffermio cynaliadwy, ailgoedwigo ac adfer cynefinoedd.

Arferion sy'n ystyriol o'r hinsawdd: Byddwn yn mabwysiadu mwy o arferion sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Arferion sy'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynyddu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dir. Gallai hyn gynnwys arferion fel amaeth-goedwigaeth, ynni adnewyddadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

Atal a rheoli tanau: Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynllun atal a rheoli tanau sy'n lleihau'r risg o losgi llystyfiant sydd heb ei reoli gan gynnal bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau fel llosgi sydd wedi'i drefnu, canfod ac adrodd yn gynnar, a chynllunio ymateb lle mae pawb yn cysylltu gyda'i gilydd.

Adfer ac adfywio: Byddwn yn ymgymryd â phrosiectau adfer ac adfywio sy'n adfer tirweddau diraddiedig, yn gwella iechyd pridd, ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau fel ailgoedwigo, rheoli erydiad, ac adfer gwlyptiroedd.

Trwy weithredu'r strategaethau hyn, mae'n bosibl addasu i ofynion natur a hinsawdd drwy adfer cysylltiad â mannau gwyrdd a chymunedau a lleihau llosgi llystyfiant sydd heb ei reoli. Mae'r strategaethau hyn nid yn unig yn hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dir ond mae hefyd yn helpu i leihau'r risg o danau gwyllt a hyrwyddo gwytnwch i newidiadau yn yr hinsawdd.



Cefnogi aer glanach a diogelu adnoddau naturiol a threftadaeth

Er mwyn cefnogi aer glanach a diogelu adnoddau naturiol a threftadaeth wrth leihau'r risg o danau gwyllt, mae'n bwysig cymryd agwedd gynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau, hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dir, a chadw adnoddau naturiol a diwylliannol.

Strategaethau allweddol ydy:

Hyrwyddo'r defnydd o dir cynaliadwy: Byddwn yn annog ac yn cefnogi arferion defnydd tir cynaliadwy sy'n lleihau'r risg o danau gwyllt, yn hyrwyddo bioamrywiaeth, ac yn diogelu adnoddau naturiol a diwylliannol. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau fel amaethyddiaeth gynaliadwy, amaeth-goedwigaeth ac eco-dwristiaeth.

Lleihau allyriadau: Byddwn yn cefnogi lleihau allyriadau o weithgareddau fel trafnidiaeth, cynhyrchu ynni, ac amaethyddiaeth, sy'n cyfrannu at lygredd aer a newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys mentrau fel hyrwyddo cerbydau trydan, cynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a gwella arferion amaethyddol.

Cadw adnoddau naturiol a diwylliannol: Byddwn yn cefnogi gwarchod a chadw adnoddau naturiol a diwylliannol, fel coedwigoedd, gwlyptiroedd a safleoedd treftadaeth, sy'n agored i danau gwyllt a bygythiadau amgylcheddol eraill. Bydd hyn yn cynnwys mentrau fel adfer cynefinoedd, diogelu treftadaeth ddiwylliannol, a mapio tactegol ardaloedd sy'n cael eu gwarchod.

Addysg ac ymwybyddiaeth: Byddwn yn paratoi ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n hyrwyddo aer glanach, defnydd tir cynaliadwy, a diogelu adnoddau naturiol a diwylliannol. Bydd hyn yn cynnwys mentrau fel rhaglenni allgymorth cymunedol, addysg ysgol, a negeseuon cyhoeddus wedi'u targedu.

Monitro a gwerthuso: Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y strategaethau hyn yn rheolaidd wrth ddiogelu adnoddau naturiol a diwylliannol, lleihau allyriadau, a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dir, a mireinio'r dulliau dros amser.

Trwy weithredu'r strategaethau hyn, mae'n bosibl i gefnogi aer glanach a diogelu adnoddau naturiol a threftadaeth wrth leihau'r risg o danau gwyllt. Mae'r strategaethau hyn yn hyrwyddo arferion defnydd tir cynaliadwy, yn lleihau allyriadau, ac yn cynnal adnoddau naturiol ac adnoddau diwylliannol, gan greu amgylchedd iachach a mwy gwydn ar gyfer cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.



Diogelu ein ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd

Mae diogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd yn hanfodol ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo atafaelu carbon.

Strategaethau ar gyfer cyflawni hyn yw:

Diogelu ardaloedd coetir: Un ffordd allweddol o ddiogelu ffynonellau carbon mewn coetiroedd yw osgoi datgoedwigo a diraddio coedwigoedd. Gellir cyflawni hyn trwy ymdrechion i ymarfer arferion cadwraeth o fewn y coedwigoedd, gan gynnwys sefydlu ardaloedd gwarchodedig ac arferion rheoli coedwigoedd cynaliadwy.

Hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy: Gall arferion amaethyddol cynaliadwy hefyd helpu i ddiogelu ffynonellau carbon mewn pridd. Mae'r arferion hyn yn cynnwys tir ffermio sydd ddim yn cael ei aredig, sefydlu cnydau gorchudd, a defnyddio gwrteithiau organig, sy'n helpu i gynnal iechyd y pridd ac atal colli carbon.

Adfer ardaloedd diraddiedig: Byddwn yn cefnogi adfer ardaloedd diraddiedig, fel tir amaethyddol segur a choedwigoedd diraddiedig, bydd hyn hefyd yn helpu i ddiogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd. Cyflawnir hyn trwy ailgoedwigo, adfer gwlyptiroedd diraddiedig, a mentrau eraill sy'n hyrwyddo adfer ecosystemau naturiol.

Rheoli tanau gwyllt: Mae rheoli tanau gwyllt hefyd yn bwysig ar gyfer diogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd. Cyflawnir hyn trwy fesurau rhagweithiol fel lleihau'r gorchudd o lystyfiant sy'n creu tanwydd i greu tan, llosgi sydd wedi'i gynllunio a'i drefnu, a chynnal dulliau effeithiol sy'n lleihau'r posibilrwydd o danau gwyllt.

Hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd: Rydym yn deall bod hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd diogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor. Cyflawnir hyn trwy ymgyrchoedd addysg gyhoeddus, ymdrechion allgymorth cymunedol, a mentrau eraill sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth ac annog gweithredu.

Trwy weithredu'r strategaethau hyn, mae'n bosibl diogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd, gan hyrwyddo dal a chadw carbon a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gall y strategaethau hyn helpu i gynnal ecosystemau iach, diogelu bioamrywiaeth, a hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy ar gyfer cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Ymrwymiad 3




Atal a Diogelu





Byddwn yn gweithredu amrywiaeth o dechnegau rheoli er mwyn lleihau effaith tanau gwyllt ar ein cymunedau a'r tirwedd yng Nghymru.





Mabwysiadu a chefnogi dull Rheoli Tirwedd o Reoli Risg Tanau Gwylt

Mae mabwysiadu dull Rheoli Tirwedd o Reoli Risg Tanau Gwylt yn cynnwys dull cyfannol o reoli'r tir a lleihau'r risg o danau gwylt.

Y camau allweddol ar gyfer mabwysiadu a chefnogi'r dull hwn yw:

Asesiad Tirwedd: Mae asesu a mapio'r tirwedd yn lleol i nodi ardaloedd sydd fwyaf agored i danau gwylt yn bwysig ar gyfer sicrhau llwyddiant. Mae hyn yn cynnwys mapio llwythi tanwydd (fuel loads), nodi ardaloedd â photensial uchel o danau gwylt, nodi cyfleoedd posib ar gyfer ymatal rhag tân, ac asesu iechyd a gwytnwch cyffredinol y tirwedd.

Strategaethau Atal: Datblygu amrywiaeth o strategaethau atal i leihau'r risg o danau gwylt. Mae hyn yn cynnwys mesurau lleihau llwythi tanwydd, creu lleiniau agored rhwng coed er mwyn atal tân ac ar gyfer cymorth ar y cyd gyda'r rheolwyr tir.

Perchnogaeth Gymunedol: Cysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am risg tanau gwylt a phwysigrwydd rheoli'r tirwedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni addysg ac allgymorth cydlynol i helpu pobl i ddeall risg tanau gwylt a'r camau y gallan nhw eu cymryd i ddiogelu eu hunain a'u heiddo.

Systemau Rhybudd a Chanfod Cynnar: Defnydd pellach o'r systemau rhybudd a chanfod cynnar presennol ac arloesol i roi rhybudd ymlaen llaw am danau gwylt posibl. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn technoleg, fel synhwyro o bell a systemau monitro'r tywydd, i helpu i ganfod tanau yn gynnar.

Cynllunio Ymateb i Argyfwng: Datblygu cynlluniau ymateb i argyfwng cynhwysfawr i sicrhau bod adnoddau ar gael i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i danau gwylt. Mae hyn yn cynnwys cydlynu gyda'r gwasanaethau brys, rhannu adnoddau, datblygu cynlluniau gwacáu, a sefydlu systemau cyfathrebu.

Monitro a Gwerthuso: Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau rheoli tanau gwylt yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau ar ôl tanau i nodi meysydd i'w gwella ac addasu strategaethau i amodau sy'n newid trwy amrywiaeth o ffynonellau.

Trwy fabwysiadu dull Rheoli Tirwedd at Reoli Risg Tanau Gwylt, mae'n bosibl lleihau'r risg o danau gwylt, diogelu cymunedau a'r amgylchedd, a hyrwyddo arferion rheoli tir cynaliadwy. Mae'r dull hwn yn gofyn am ymdrech gydweithredol rhwng aelodau'r bartneriaeth, cymunedau, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau llwyddiant hirdymor.



Rhannu gwybodaeth a darparu hyfforddiant drwy rwydwaith cydweithio ledled Cymru

Gellir rhannu gwybodaeth a darparu hyfforddiant drwy rwydwaith cydweithio ledled Cymru drwy'r camau canlynol:

Sefydlu Rhwydwaith Cydweithredol: Dod â rhanddeiliaid ynghyd o wahanol sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli risg tanau gwyllt yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ein partneriaid newydd a phresennol, sefydliadau academiaidd, a grwpiau cymunedol. Bydd angen hefyd sefydlu rhwydwaith i hwyluso cyfathrebu a chydweithio rhwng y rhanddeiliaid hyn.

Nodi Bylchau Gwybodaeth ac Anghenion Hyfforddiant: Cynnal asesiad anghenion i nodi bylchau gwybodaeth ac anghenion hyfforddi ar draws y rhwydwaith. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd lle mae angen hyfforddiant a phenderfynu'r dulliau a'r bobl orau i ddarparu'r hyfforddiant.

Datblygu Deunyddiau Hyfforddi: Datblygu deunyddiau hyfforddi sy'n mynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth a'r anghenion hyfforddi a nodwyd. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion penodol pob grŵp o fewn y rhwydwaith.

Darparu Hyfforddiant: Darparu hyfforddiant drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys gweithdai, gweminarau ac adnoddau ar-lein, gan sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch i'r holl randdeiliaid o fewn y rhwydwaith a'i fod yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n briodol ac yn effeithiol i'r gynulleidfa darged.

Monitro a Gwerthuso: Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir. Bydd hyn yn cynnwys asesu effaith yr hyfforddiant ar wybodaeth a sgiliau cyfranogwyr a nodi meysydd i'w gwella.

Rhannu Gwybodaeth ac Arferion Gorau: Sefydlu plattform ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion gorau ar draws y rhwydwaith. Gallai hyn gynnwys porth rhannu gwybodaeth, cronfa wybodaeth, neu gyfarfodydd aml-lefel rheolaidd i rannu profiadau a dysgu oddi wrth ein gilydd.

Trwy sefydlu rhwydwaith cydweithredol, nodi bylchau gwybodaeth ac anghenion hyfforddi, datblygu deunyddiau hyfforddi priodol, a darparu hyfforddiant trwy amrywiol ddulliau, gall rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i adeiladu eu capasiti a gwella arferion rheoli risg tanau gwyllt yng Nghymru. Bydd rhannu gwybodaeth ac arferion gorau hefyd yn helpu i gryfhau cydweithredu, creu ymddiriedaeth, a hyrwyddo gweledigaeth a fyddai'n cael ei rannu ar gyfer rheoli'r risg o danau gwyllt.



Creu Map Risg Tân amlswyddogaethol a phecyn cymorth ar gyfer technegau rheoli tir ataliol

Gellir creu Map Risg Tân amlbwrpas a phecyn cymorth ar gyfer creu technegau ataliol i reoli tir drwy'r camau canlynol:

Nodi Data Perthnasol: Casglu data perthnasol ar ffactorau sy'n cyfrannu at risg tanau gwyllt, fel er enghraifft, amodau tywydd, mathau o lystyfiant, topograffi, a phatrymau defnydd tir. Ceir data o wahanol ffynonellau, fel lluniau lloeren, arolygon daear, a gwybodaeth am achosion tân o'r gorffennol.

Datblygu Fframwaith Asesu Risg: Datblygu fframwaith asesu risg sy'n integreiddio'r data a gesglir i nodi ardaloedd sydd â risg uchel o danau gwyllt. Bydd y fframwaith yn ystyried tebygolrwydd ac effaith bosibl tanau gwyllt ym mhob ardal.

Creu Map Risg Tân: Defnyddio'r fframwaith asesu risg i greu Map Risg Tân amlbwrpas sy'n rhoi trosolwg o'r ardaloedd sydd â risg uchel o danau gwyllt. Dylai'r map fod yn hawdd ei ddefnyddio, yn hygyrch, ac wedi'i ddiweddarau'n rheolaidd gyda data newydd.

Datblygu Pecyn Cymorth ar gyfer Technegau Rheoli Tir Ataliol: Datblygu pecyn cymorth sy'n darparu arweiniad ymarferol ar dechnegau rheoli tir a all leihau'r risg o danau gwyllt. Bydd y pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar arferion gorau ac yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau, fel llosgi dan reolaeth, rheoli llystyfiant, a diogelu trwy ddefnyddio lleiniau atal tân.

Gweithredu cynllun peilot o'r Map Risg Tân a'r Pecyn Cymorth: 'Mainc-arbrofi' y Map Risg Tân a'r Pecyn Cymorth mewn ardaloedd dethol i brofi eu heffeithiolrwydd a chasglu adborth gan randdeiliaid. Dylai'r cynllun peilot gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys tîrfeddianwyr, cymunedau lleol ac asiantaethau rheoli tanau gwyllt.

Mireinio a Chwblhau'r Map Risg Tân a'r Pecyn Cymorth: Mireinio'r Map Risg Tân a'r Pecyn Cymorth yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd yn ystod y peilot. Cwblhau'r map a'r pecyn cymorth, gan sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio, yn hygyrch ac wedi'u teilwra i anghenion gwahanol randdeiliaid.

Lansio'r Map Risg Tân a'r Pecyn Cymorth: Lansio'r Map Risg Tân a'r Pecyn Cymorth trwy amrywiaeth o sianeli, fel porth ar-lein, gweithdai a sesiynau hyfforddi. Sicrhau bod y map a'r pecyn cymorth yn cael eu hyrwyddo'n eang ac yn hygyrch i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â rheoli risg tanau gwyllt yng Nghymru.

Trwy greu Map Risg Tân amlbwrpas a phecyn cymorth ar gyfer technegau rheoli tir ataliol, gall rhanddeiliaid nodi ardaloedd sydd â risg uchel o danau gwyllt a gweithredu strategaethau rheoli tir wedi'u targedu i leihau'r risg hon. Gellir defnyddio'r map a'r pecyn cymorth i lywio penderfyniadau rheoli tir, targedu adnoddau, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mesurau ataliol wrth leihau effaith tanau gwyllt yng Nghymru.



Lleihau niferoedd a difrifoldeb tanau gwyllt heb eu rheoli trwy rannu adnoddau a gweithredu mesurau atal

Lleihau nifer a difrifoldeb y tanau gwyllt sydd heb eu rheoli trwy rannu adnoddau a gweithredu mesurau atal.
Dylid dilyn y camau canlynol:

Ailddatblygu'r Dull Cydweithredol: Datblygu gwell dulliau a mwy cyfoes o ran gweithrediad y dull cydweithredol o reoli tanau gwyllt sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid. Bydd y dull hwn yn anelu at nodi ardaloedd sydd â risg uchel o danau gwyllt a llunio strategaethau i'w hatal rhag digwydd.

Rhannu Adnoddau: Rhannu adnoddau, fel offer ymladd tân, personél, sgiliau ac arbenigedd, rhwng rhanddeiliaid i ymateb yn effeithiol i danau gwyllt. Gwneir hyn trwy greu canolfannau adnoddau rhanbarthol sy'n darparu offer tactegol a phersonél amlasiantaeth y gellir eu hanfon yn gyflym i ardaloedd sy'n profi tanau gwyllt.

Gweithredu Mesurau Atal: Gweithredu mesurau atal a gynlluniwyd, fel llosgi drwy drefniant, rheoli llystyfiant, a sefydlu lleiniau atal tân, i leihau'r risg o danau gwyllt. Bydd y mesurau hyn yn cael eu targedu at ardaloedd sydd â risg uchel a amlygwyd trwy'r dull cydweithredol o weithio.

Datblygu Systemau Rhybudd Cynnar: Datblygu systemau rhybudd cynnar sy'n defnyddio data amser real a rhagolygon tywydd i nodi'r risg posibl o danau gwyllt. Defnyddir y systemau cyfathrebu hyn i rybuddio rhanddeiliaid i gymryd mesurau ataliol a sicrhau bod adnoddau ar gael yn gyflym mewn ardaloedd lle mae tanau gwyllt yn debygol o ddigwydd.

Codi Ymwybyddiaeth: Codi ymwybyddiaeth o risg o danau gwyllt a phwysigrwydd mesurau ataliol. Bydd hyn yn cynnwys creu ymgyrchoedd addysg sydd wedi'u targedu at wahanol randdeiliaid. Dulliau fydd yn defnyddio gwahanol sianeli, fel y cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd cymunedol, a rhaglenni ysgol.

Monitro a Gwerthuso: Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau atal a'r dull cydweithredol. Bydd hyn yn cynnwys olrhain nifer, difrifoldeb ac achosion tanau gwyllt dros amser, asesu effeithiolrwydd mesurau atal, a chasglu adborth gan randdeiliaid.

Trwy rannu adnoddau a gweithredu mesurau atal, gall rhanddeiliaid leihau'r nifer a difrifoldeb tanau gwyllt yng Nghymru. Gall dull cydweithredol sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid nodi'r ardaloedd hynny sydd â risg uchel gan ddatblygu strategaethau effeithiol i atal tanau gwyllt. Gellir defnyddio systemau rhybudd cynnar i ymateb yn gyflym i berygl tanau gwyllt posibl, tra gall ymgyrchoedd ymwybyddiaeth helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd mesurau atal. Gall monitro a gwerthuso rheolaidd sicrhau bod mesurau atal yn effeithiol a nodi meysydd i'w gwella.